Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25 Tachwedd 2014

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. Parry, G. C. Jones, A. Mummery, A. Williams, E. Parry, Mervyn Jones, H. Huws, D. Williams,
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: Anwen Le Cras (Swyddog Cyllid), Meirion Jones, B. Jones, A. Thomas, P. Roberts,

2. Datganiadau Diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifon mis Tachwedd 2014
3.1 J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir.
3.2 H. Huws yn cynnig bod ei thal cynhaliaeth o £80 am ei diwrnod yn Llandrindod yn cael ei rhoi at yr ymgyrch gwrth beilonau ar ran y Cyngor Bro.
3.3 A. Mummery gyda'r casgliad oedd wedi ei hel yn y Gwasanaeth Cofio, a bod y Cyngor Bro am dalu am y wreath.
3.4 A. Mummery yn nodi mai dim I gyfrif y Neuadd Goffa y dylid y rhodd o £200 gan y Pwyllgor Carnifal wedi mynd ond I gyfrif y Cyngor Bro.

4. Cofnodion Pwyllgor y Neuadd Goffa 11 Tachwedd 2014
4.1 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir

5 Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Cyflenwad Trydan – A. Mummery yn nodi bod yr anfoneb cywir wedi ei dderbyn ac ei dalu
5.2 Swydd Gofalwr – Anwen wedi cadarnhau ei bod yn fodlon cario ymlaen gwneud y swydd ar hyn o bryd. A. Mummery yn cynnig bod Anwen yn derbyn tal am y gwaith unwaith bydd mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Neuadd.
5.3 Ymgyrch codi arian – Cyfarfod agored wedi ei drefnu ar gyfer 13 Ionawr 2015 gyda Gerallt Llewelyn a Dewi Williams I fynychu. Hysbyseb am fod yn y Papur Menai yn Rhagfyr. A. Jones am wneud poster I hysbysu pobl.
5.4 Atgyweirio Ffenestri y Neuadd Goffa – Anfoneb wedi ei yrru I'r Cyngor Sir, dim taliad wedi ei dderbyn hyd yn hyn. Hefyd angen dilyn I fyny gyda taliadau cynnal a chadw y Neuadd Goffa, yswiriant y pafiliwn, ffens y clwb bowlio a'r wefan
5.5 A. Jones yn cadarnhau ei fod wedi cael y speakers o'r cwpwrdd yn gegin y Neuadd a bod dim difrod iddynt

6. Materion y Cyngor Sir
6.1 J. Evans yn cadarnhau bod Cynghorau Cymunedau./Trefi yn edrych I gael CCTV yn y pentrefi. A. Mummery am wahodd Guy Blackwell I ddod I un o gyfarfodydd y Cyngor Bro I drafod costau ac yn y blaen.
6.2 A. Mummery wedi cyfarfod gyda llywodraethwyr yr ysgol a Adran Addysg y Cyngor Sir ynglŷn a'r Ysgol Feithrin. A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio bod llythyr yn cael ei yrru at y Cyngor Sir yn cefnogi cais yr Ysgol Feithrin I ostwng oedran mynediad I 3 oed, a bod rent y Gorlan yn cael ei drosglwyddo I'r Cyngor Sir.

7. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 28 Hydref 2014
7.1 J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir.

8. Materion yn codi
8.1 Twr Marcwis wedi cau – Clerc wedi gofyn I Jones Peckover am gyfarfod, dim ymateb hyd yn hyn
8.2 Gwefan newydd – Wedi ei gwblhau. Nodwyd bod diffyg gallu rhoi llunia newydd arno, a bod angen diweddaru y swyddi.
8.3 Cerrig beddi – G. Parry am drafod gyda Anwen
8.4 Plac ar hen dy Kyffin Williams – Meirion wedi trafod gyda Pat West, ac am ddilyn I fyny ar y mater gyda hi.

8.5 Maes Aml-bwrpas – G. C. Jones wedi gwneud ymchwiliad ac wedi nodi bod angen gwariant gan fod rhai offer wedi dirywio yn ddrwg. A. Mummery yn cynnig, G. Parry yn eilio bod y Cyngor Bro yn trefnu I wneud y gwaith fel y maent yn derbyn y costau. Nodwyd bod dim angen I Communities First wneud ymchwiliad ddim mwy.
8.6 Maes Parcio y Gors –Wedi ysgrifennu at dau gwmni yn gofyn am brisiau, disgwyl ymateb.
8.7 Coed y Fynwent – E. Parry am weithredu o fewn yr wythnos nesaf yn ddibynnol ar y tywydd.
8.8 Bin tu allan I'r Neuadd Goffa – Clerc wedi gofyn wrth yr Adran Rheoli Gwastraff I'w symud I'r parc.
8.9 Gwlâu Blodau – Medwyn Williams wedi ymchwilio, dangos pryder am gyflwr rhai o'r gwlâu. Am weithredu arnynt yn y flwyddyn newydd.
8.10 – Dwr yn sefyll tu allan I'r Feddygfa – Mater am gael ei drafod gyda'r bwrdd Iechyd yn y cyfarfod gyda Chris Wilcox am y goedwig
8.11 Paentio y Neuadd Goffa – Risk Assesment wedi wneud, E. Parry am weithredu ar ol cael paent.

9. Cadarnhau cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 11 Tachwedd 2014
9.1 A. Williams yn cynnig, A. Mummery yn eilio, derbyniwyd fel y rhai cywir

10. Materion yn Codi
10.1 Cais yswiriant y pafiliwn – Anwen Le Cras yn dilyn I fyny
10.2 Pac Sglefrio– Clerc am wneud gwaith ymchwil gyda awdurdodau eraill sydd gyda Parc Sglefrio.
10.3 Meinciau – Cytunwyd I symud Meinciau o Pwllfanogl a Refail Goch I'r Parc.
10.4 Offer chwarae newydd – Clerc am ddilyn I fyny am ad-daliad y grant gan y Cyngor Sir.

11. Ceisiadau Cynllunio
11.1 31C34H/DEL – Cais o dan Adran 73 Côd Cartrefi Cynaliadwy i ddileu amodau (03), (04) a (05) o ganiatâd cynllunio rhif 31C134E (Cais llawn I godi 5 annedd ynghyd a chreu mynedfa I modurdy ar dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll – Dim sylw
11.2 31C421 – Cais llawn am addasu ag ehangu ynghyd a codi gweithdy preifat ar wahân yn 100 Ty Croes, Llanfairpwll – Dim sylw

12. Gohebiaeth
12.1 Cofrestrfa Tir – Fynwent Rhandir Hedd, Llanfairpwll – Dim sylw
12.2 Llythyr – Mr A D Williams ynglŷn a wal Minffrwd – Gyrru ymateb yn diolch ac ein bod am hawlio 50% o'r costau fel rhan o'r cyd-gynnal.
12.3 Llythyr – Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015 – Caerffili – Mater i'w rhoi I'r Pwyllgor Cyllid
12.4 Horizon – Nodi dyddiad pennu ymgynghoriad Wylfa Newydd – H. Huws wedi drafftio ymateb swyddogol drost Cyngor Bro, cytunwyd ato gyda ychwanegiadau.

13. Unrhyw fater arall
13.1 J. Roberts wedi bod yn nghyfarfod Pwyllgor Safonau ac yn llongyfarch pob Cynghorwr Cymunedol. Hefyd yn nodi bod y cyfarfod nesaf wedi ei ohirio am fod un Cynghorwr Sirol gyda gwrandawiad.
13.2 A. Williams yn nodi bod tyllau twrch daear a dail yn hel yn y fynwent.
13.3 A. Williams yn nodi bod angen diweddaru yr hysbysfwrdd.
13.4 A. Jones yn atgoffa pawb am y Ras Siôn Corn ac yn nodi bod angen help gwirfoddol

Dyddiad Cyfarfod Nesaf – Nos Fawrth 16 Rhagfyr 2014 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd …… (Cadeirydd) ……Dyddiad